# Cyngor Cymuned Bodedern

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Bodedern,

Nos Lun, 20 o Fai 2024 am 18.30 yng Nghanolfan Bro'r Ysgol

1. **Croeso a unrhyw ymddiheuriadau.**

   Presennol: JA Roberts (JAR, Cadeirydd), D Hughes (DH, Clerc), V Owen (VO), O Jones (OJ), B Hughes (BH), Ed Jones (EJ), L Jones (LJ), G Jones (GJ), K Taylor (KT).

   Ymddiheuriadau - J Ferry (JF), Richard Jones (RJ), J Barnett (JB), A Postle (AP), G Jones (GJ).

2. **Datgan diddordeb - neb**

3. **Croesawu ac adroddiad y Cadeirydd**

   **-** Llongyfarchiadau i Gwylim Jones am ennill y wisg werdd yn yr eisteddfod.

   - Adroddiad y Cadeirydd (wedi ei atodi)

4. **Ethol Cadeirydd ac is Gadeirydd**

   Linda Jones yn cynnig cadw JAR a EJ fel Cadeirydd ac is-gadeirydd, Bethan Hughes yn eilio a pawb yn cytuno.

   Ymateb Gary Leadbitter i'r lonydd,

   - Tyllau ar Ffordd Llundain wedi eu llenwi, dim cynllun o waith ail wynebu 2024/25 ac mae peiriant TRR wedi torri
   - 110m o waith ail wneud droedffordd Ffordd Llundain, 100m ar Stryd Eglwys, 70m o droedffordd a chyrbau Ffordd Llundain.

5. **Derbyn ffurfleni datganiad derbyn swydd gan y cadeirydd a'r is-gadeirydd**

   Ffurfleni wedi derbyn

6. **Penodi cynrychiolwyr ar gyfer pwyllgorau cynlynol:-**

   a) Un llais Cymru – OJ & AP
   b) Pencampwr Iaith Gymraeg – RJ
   c) Fforwm cyswllt cynghorau tref a chymuned – EJ
   ch) Corff llywodraethu ysgol gymuned – EJ
   d) Pwyllgor Tywyn Trewan – LJ (Rôl am gyfnod o dair blynedd)
   dd) Cyngor Bro'r Llynnoedd – JAR
   e) Neuadd bentref – JAR
   f) Pwyllgor staffio – JAR, EJ & DEH

7. **Penodi cynrychiolwyr ar y panel ariannol.**

   JAR, EJ, BH, OJ, DEH

8. **Adolygu a mabwysiadu dogfenau statudol**

a) Cod ymddygiad
b) Rheolau ariannol
c) Polisi lwfansau aelodau
ch) Cofrestr datgan diddordeb
d) Rheolau sefydlog

Pob un wedi eu derbyn.

**9. Cyllid, Rheolaeth a Rheoli risg**

a) Ffurflen cysoni blwyddyn 2023 – 2024, yn gorffen 31/3/24

Dechrau 1/4/23 - £16,040.89 Derbyn £16,000 Cyfanswm £32.040.89
Taliadau - £11,278.60
Balans ar 31/3/24 - £20,762.29

Cyfrifon - Unity £20,762.29
HSBC £17,880.56
HSBC £48.24
Cyfanswm £38,691.09

Diweddariad 30/4/24

| | |
|---|---|
| Unity bank - | £26,098.09 |
| HSBC (wedi cau) - | £17,880.56 |
| HSBC (Cyfrif cadw wedi cau) | £48.24 |
| Cyfanswm | £44,026.89 |

b) Asesiad risg ariannol – Angen ail edrych ar yr asesiad risg ariannol er mwyn iddo fod yn fwy manwl a thrylwyr na beth sydd ar gael. Edrych ar un llais cymru.

c) Yswiriant – Wedi ei dalu am 2024/25

ch) Chadarnhau llofnodwyr banc a threfniadau bancio –

Unity bank – JAR, LJ, EJ
HSBC - JAR, LJ, EJ, DEH

d) Penderfynu uchafswm yn y banc ar gyfer gwariant – OJ yn cynnig £2,500, EJ yn eilio.

dd) Cadarnhau penodi archwiliad mewnol – Alun Foulkes wedi ei benodi, pawb yn gytûn

e) Adolygu rhestr asedau – Wedi gorfod tynnu offer allan o'r cae chwarae yn werth cyfanswm o £6195. Gwerth asedau yno nawr yn £25,095.

f) Datganiad taliadau Cynghorwyr – Angen cael eu gyrru i ffwrdd i IRP. Ychwanegu Osian Jones & Dafydd Williams a tynnu allan Ann Thomas.

ff) Taliadau y Fynwent – JAR & OJ wedi cyfarfod Gareth Owen a yn adrodd yn ôl;

Gareth Owen am drio torri lawr bob taliad a pasio draw rhagor o wybodaeth am y fynwent. Dim

llawer o ddim byd wedi ei dderbyn yn dilyn y cyfarfod. Manylion taliadau wedi atodi ar y diwedd.

DEH i yrru E-bost i Gareth Owen

- Breakdown am taliadau
- Cynnig I ddod I chyfarfodydd. Efallai bob 4 neu 6 mis.
- Gofyn am gyfarfod yn y fynwent I drafod manylion/planiau.

**10. Cadarnhau dyddiadau cyfarfodydd y cyngor.**

24 Mehefin 2024, y gweddill I ddilyn.

**11. Sedd wag y Cyngor.**

Hysbyseb wedi mynd allan, dyddiad cau 3ydd Mehefin.

**12. Derbyn cofnodion cyfarfod Ebrill 2024.** LJ yn cynnig, VO yn eilio.

**13. Fformat Cofnodion –** Penawdau gwahanol liw neu bold I rhoi pwyslais ar newid pwnc.

Cofnodion (a dogfennau I gyd) angen bod yn ddwyieuthog o Ebrill 24 ymlaen.

Cyswllt I fynd ar y wefan a pob cofnod I'w rhoi I fyny. Dogfen ar wahan I Cymraeg a Saesneg.

**14. Ymatebion**

- Tyllau heibio Presaddfed ac ar Ffordd Llundain wedi eu gwneud.
- Lon dywyll angen rhagor o waith (gordyfiant yng nganol lon a'r ochrau)
- Dim ymateb gan Env health hyd yn hyn ynglyn a'r baw ci
- Angen arwyddion 'dim cwn' ar y fynwent a maes chwarae

**15. Archwiliad Mewnol**

JAR - Popeth wedi mynd i Alun Foulkes, wedi gadael I Derek Evans wybod fydd 1 adroddiad am y pum mlynedd diwethaf yn dderbyniol.

Alun Foulkes wedi nodi fod ambell I ddogfen ar goll ond nid ydynt ar gael ar y funud.

**16. Deddf Cynllunio**

JAR & KT yn cytuno does dim cais newydd.

KT yn adrodd fod y cyngor yn gobeithio prynnu 4 – 6 ty o 'r stad newydd, Tre Angharad. Dim tai o'r stad wedi eu gosod eto gan y Cyngor Sir.

**17. Enw ar y stad 3 bynglo ger y fynwent**

Steve Wilkinson yn dweud fod IOACC yn gwrthod Maes Gwerfyl.

Cynnig Llety'r Wennol fel cynnig cyntaf a Y Gilfach yn ail.

**18. Gohebiaeth**

Her y gymuned gan yr Ysgol Uwchradd.
JAR, EJ a JB wedi bod yn yr ysgol I drafod y parc. Disgyblion am greu holiadur I weld beth fyddai barn bobl lleol I weld beth fyddai nhw yn hoffi ei weld yn y pentref yn gyffredinol yn ogystal a'r cae chwarae. Trafod y canlyniadau yn y cyfarfod nesaf.

Diogelwch offer y parc
ROSPA – Isio £78+TAW I rhoi arolwg I'r parc. Pawb yn cytuno.

Digwyddiad gwybodaeth & ymgysylltiadau fframwaith ar 19 Mehefin 2024

**19. Wal y Fynwent**

JAR wedi cael 2 bris. TH Jones - £450. HRHughes - £852+TAW.
JAR am drio cael cadarnhad fod pris THJ yn gywir a cael un pris arall.

**20. Taliadau I'w gwneud**

Humphreys waste - £28.80
DCWW - £24.56
Anglesey Computer solutions - £195
Leigh Tomas - £700 (£300 Maes Chwarae a £400 am fynwent)
Ysgol Uwchradd Bodedern - £147.52
Taliadau I JARoberts am Yswiriant - £576.96, Humphreys waste - £28.80, DCWW - £50.15.
Cyflog clerc & HMRC – I'w sortio eto
Rhodd I Mai Owen – EJ yn cynnig £250, pawb yn eilio.
Laptop a printer – DEH I gael 3 pris a adrodd yn ôl. Angen MS suites fel rhan ohono.

**21. Eitemau Aelodau**

LJ- Cwŷn wedi dod am frigau yn y fynwent

BH – Cwŷn fod y fynwent yn fler a'r gwair ddim yn cael ei hel ar ôl ei dorri ac wedi ei dorri yn fler

EJ – Yn cynnig gwneud rhywbeth gyda'r pres yn y cyfrif, unai rhoi mewn cyfrif gyda llôg uchel neu eu wario ar offer parc er engraifft

KT – Yn cynnig fyddai cadw rhwng 5%-10% o incwm blwyddyn wrth gefn yn ddigonol ond mae I fyny I'r cyngor benderfynu, mater i'r panel ariannol.

BH – Yn holi os oes fan lyfrgell yn dod I'r pentref. Os oes, pryd ac os ddim sud fyddai ni yn cael un.

JAR – Cais am 40mya o Dalar I Bodedern.
- Contract y clerc, LJ, JAR, EJ & Mai.
- Angen adroddiad blynyddol, fydd wedi ei orffen erbyn cyfarfod nesaf.
- Angen torri mwy ar y gwair a'r gwrychoedd ar Lon Dywyll.
- Giat a gwair angen sylw tu ol I 37 Ffordd Llundain, ar Lon Batus.
- Pwy sydd yn gyfrifol am y darn gwair tu allan I Feddygfa Bodedern.
- JAR yn cynnig gwellianau I wefan y cyngor, pawb yn cytuno.

**22. Cyfarfod nesaf**

24 Mehefin 2024

Cadeirydd: ____________________________ Dyddiad: _______________________